



11 Mai 2022

Annwyl Gydweithwyr

## Cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar ddadariannu cymwysterau lefel 3 yn Lloegr

Heddiw, mae Adran Addysg Llywodraeth y DU wedi [cyhoeddi rhestr o gymwysterau](#) sy'n gorgyffwrdd â thonnau 1 a 2 o lefelau T ac a gaiff eu dadariannu [yn Lloegr](#) o fis Awst 2024.

Rwy'n cydnabod y byddwch yn pryderu am effaith bosibl y newidiadau polisi a chyllid hyn ar argaeledd rhai cymwysterau lefel 3 yng Nghymru, a hoffwn roi sicrwydd ichi am y camau rydym ni wedi'u cymryd ac y byddwn yn parhau i'w cymryd i sicrhau bod ystod briodol o gymwysterau ar gael i ddysgwyr Cymru.

Mae cyhoeddiad yr Adran Addysg Llywodraeth y DU heddiw yn ymwneud â chymwysterau lefel 3 a gaiff eu dadariannu yn Lloegr yn unig. Nid yw'r dadariannu hwn o gymwysterau yn Lloegr yn golygu na fyddant ar gael yng Nghymru. Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn gweithio'n helaeth gyda chyrrff dyfarnu i nodi effaith debygol y newidiadau ac i sicrhau bod ystod addas o gymwysterau yn parhau i fod ar gael yng Nghymru.

Mae ein gwaith dros y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud llawer i liniaru'r risgiau a achosir gan y newidiadau i'r polisi cymwysterau sy'n digwydd yn Lloegr. Byddwch yn ymwybodol, er enghraifft, o'n cyfres o adolygiadau sector o gymwysterau. Mae pedwar adolygiad wedi'u cwblhau: Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys Gofal Plant; Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig; Technoleg Ddigidol a Pheirianeg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni. Bydd ein pumed adolygiad, sef Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyyo yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2023 ond rydym eisoes yn cynnal trafodaethau gyda chyrrff dyfarnu am y cymwysterau a gaiff eu cynnig yn y maes hwn yn y dyfodol.

Rydym ni hefyd yn cynnal cyfres o adolygiadau sector cam 2 llai manwl sy'n canolbwyntio ar p'un a yw'n debygol y bydd ystod addas o gymwysterau, gan gynnwys cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ar gael yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adolygiad cam 2 cyntaf (Chwaraeon a

### Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.cymwysteraucymru.org](http://www.cymwysteraucymru.org)

### Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Gwasanaethau Cyhoeddus) fis Medi diwethaf, a'n bwriad yw cyhoeddi ein hail adolygiad (Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid) yn ddiweddarach eleni. Bwriedir cynnal adolygiadau pellach ar gyfer Gweinyddu Busnes a Manwerthu (2022), Celf, Creadigol a'r Cyfryngau (2022) a Gwallt a Harddwch (2023).

Lle rydym ni wedi comisiynu cymwysterau newydd ar gyfer Cymru (mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig) mae'r risg a achosir gan y newidiadau yn Lloegr wedi'i ddileu – rydym ni'n hunangynhaliol yn y sectorau hyn wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am bob sector. Nid oedd yr adolygiadau Technoleg Ddigidol a Pheirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni yn cynnig comisiynu cymwysterau newydd yn benodol i'w defnyddio mewn colegau addysg bellach a phrentisiaethau – ni ddisgwylir ychwaith y bydd yr adolygiadau sector cam 2 yn arwain at weithgarwch comisiynu sylweddol. Yn hytrach, dros y tair blynedd diwethaf, rydym ni wedi bod yn rheoli'r risgiau a achoswyd gan newidiadau i bolisi cymwysterau yn Lloegr drwy ymgysylltu â chyrrff dyfarnu sy'n dyfarnu niferoedd sylweddol o gymwysterau galwedigaethol mewn addysg ôl-16 yng Nghymru ar hyn o bryd.

Rydym wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda'r chyrrff dyfarnu mawr fel Pearson, City and Guilds, CBAC, NCFE, VTCT, EAL a Highfield, yn ogystal â thrafodaethau penodol gyda chyrrff dyfarnu fel rhan o adolygiadau sector cam 2. Mae cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu gydag amrywiaeth o gyrff dyfarnu eraill sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Mae'r holl drafodaethau hyn wedi bod yn galonogol o gadarnhaol ac mae chyrrff dyfarnu wedi cadarnhau eu dymuniad i barhau i fod yn weithgar yng Nghymru. Er enghraifft, o ganlyniad i'n trafodaethau, mae Pearson wedi ymestyn dyddiadau dechrau dynodi ystod o'u cymwysterau BTEC lefel 3 hyd at fis Awst 2026 gydag ardystiadau tan fis Awst 2028 (sy'n golygu y gall o leiaf bedair carfan arall ddilyn y cymwysterau hynny) i ddarparu sicrwydd tymor canolig i ddysgwyr ac i ddarparwyr yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn gweithio'n agos gyda City & Guilds i ymestyn ystod o'u cymwysterau lefel 3.

Rydym ni'n hyderus ynglŷn â'r camau rydym ni'n eu cymryd. Yn y rhan fwyaf o sectorau mae cymwysterau amgen ar gael nad ydynt yn cael eu dadariannu yn Lloegr ond, lle mae cymwysterau gwerthfawr yn cael eu dadariannu, byddwn yn parhau i weithio gyda chyrrff dyfarnu i ymestyn dyddiadau gorffen y cymwysterau hynny i sicrhau nad yw bylchau'n dod i'r amlwg yn y cymhwyster ôl-16 a gynigir yng Nghymru.

Byddwn wedyn yn parhau i gydweithio â chyrrff dyfarnu a chanolfannau i sicrhau bod cynnig cymwysterau cynaliadwy, modern a dwyieithog yn cael ei sicrhau i ddysgwyr yng Nghymru yn y tymor hwy. Lle bo angen, byddwn yn ystyried defnyddio un neu fwy o'n dulliau rheoleiddio i sicrhau bod rhai cymwysterau galwedigaethol ar gael. Gall yr offer hyn gynnwys mabwysiadu cymwysterau a ddefnyddir mewn mannau eraill yn y farchnad ryngwladol, addasu cymwysterau presennol i ddiwallu anghenion Cymru neu, lle bo angen, comisiynu cymwysterau newydd i lenwi unrhyw fylchau. Yn y gwaith hwn byddwn yn dod â chanolfannau

a chyrff dyfarnu ynghyd i sicrhau bod cymwysterau sy'n addas i'r diben yn parhau i fod ar gael yng Nghymru.

Rydym ni'n cydnabod y gall cyhoeddiadau fel yr hyn sy'n cael ei wneud heddiw yn Lloegr fod yn frawychus ond gobeithiwn y bydd y llythyr hwn yn rhoi sicrwydd ichi y bydd Cymwysterau Cymru yn sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais oherwydd newidiadau polisi yn Lloegr. Os hoffech drafod unrhyw wybodaeth yn y llythyr hwn, byddai ein tîm Polisi a Diwygio Cymwysterau yn fwy na pharod i gyfarfod â chi i drafod unrhyw bryderon penodol. Gallwch gysylltu â nhw ar [ymholiadau@cymwysteraucymru.org](mailto:ymholiadau@cymwysteraucymru.org).

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Weithredwr